Enw

DARLLENWCH
Genesis 13: 1-18

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Lot yn gwneud dewis hunanol**

## Stori 2 Abram a Lot

Roedd gan Abram a Lot lawer o ddefaid a nifer o weision i ofalu amdanynt. Un noson, roedd y gweision yn cweryla am nad oedd digon o borfa i fwydo'r holl ddefaid. Gwnaeth hyn Abram yn drist. Felly dywedodd y dylai Lot ag ef fyw mewn llefydd gwahanol.

Dywedodd Abram mai Lot fyddai'n cael dewis lle i fyw. Roedd Abram yn garedig. Ond doedd Lot ddim yn garedig. Roedd yn hunanol. Dewisodd y lle gorau. Ar ôl iddo fynd, dywedodd Duw wrth Abram y byddai'n rhoi'r tir I GYD iddo ef. Doedd Abram ddim yn hunanol ac fe roddodd Duw y pethau gorau iddo.

Rhowch linell o dan y gair sy'n dangos faint o'r tir y byddai Duw yn ei roi i Abram.

**Ychydig** **Y cyfan** **Dim**

**Lliwiwch yr adnod a'r llun a rhoi ychydig o ddefaid yn y llun hefyd.**

"Bydd Duw yn rhoi popeth y mae arnoch ei angen i chithau"

**Philipiaid 4: 19**